| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **27 Chwefror 2013** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Cynllun Gweithredu y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol** |

---

**1. Beth yw testun yr adroddiad?**

Mae'r adroddiad hwn yn darparu i'r Pwyllgor y cynllun gwaith diweddaraf a gwybodaeth o'r cynnydd a wnaed o ganlyniad i adolygiad fframwaith llywodraethu'r Cyngor a'r Datganiad LLywodraethu Blynyddol 2011/12.

**2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn monitro Cynllun Gweithredu y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn rheolaidd fel rhan o drefniadau llywodraethu cyffredinol y Cyngor.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn cynnig sylwadau ar y cynnydd a wnaed o ran rheoli'r gweithredoedd yng Nghynllun Gweithredu y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.

**4. Cefndir**

4.1. Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys asesiad blynyddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor a Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n tynnu sylw at unrhyw wendidau llywodraethu o bwys. Mae'r Fframwaith hefyd yn tynnu sylw at feysydd eraill sydd angen gwelliant er nad oes ganddynt unrhyw wendidau o bwys.

4.2. Mae'r Grŵp Llywodraethu wedi datblygu cynllun gweithredu (Atodiad 1) yn codi o'r adolygiad diweddaraf o drefniadau llywodraethu. Mae'r cynllun gweithredu yn hyblyg ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid ychwanegu ato wrth i faterion godi yn ystod y flwyddyn gan ein bod yn monitro trefniadau llywodraethu drwy'r flwyddyn yn hytrach na chynnal proses unigol ar ddiwedd y flwyddyn.